Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 p.m. ar ddydd Mercher, 23ain Tachwedd 2005

Presennol: Y Maer Colin Jenkins; Dirprwy Faer Hugh Towns; Cyng Charlotte Leadbeater; Cyng Roy Davies; Cyng Ros Bellamy; Cyng Pam Steane Price; Cyng Ieuan Gwyn; Mr. Christopher Plummer (Swyddog Ariannol); Mr. Des Davies (Swyddog Technegol); Mr. Roger Phillips (Clerc y Dref)

Yn Mynychu : Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Ymddiheuriadau: Cyng Richard Wallace; Cyng Paul Faulkner.

Materion yr Heddlu: Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Rhingyll Neil Jones a ddarllenwyd gan y Maer. Adroddodd fod yna gyfres o fân ddigwyddiadau o fandaliaeth wedi digwydd. O ganlyniad i hyn mae chwech o lanciau lleol wedi'u harestio. Fe fydd rhai ohonynt o bosib yn cael eu cyhuddo yn dilyn archwiliadau pellach. Fe fydd yr Arolygydd Tony Ward yn annerch yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor. Roedd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones yn pryderi am adroddiadau a adroddodd wrtho gan drigolion lleol am aflonyddwch mewn lle gwerthu bwyd yn hwyr y nos. Fe fydd y pryderon hyn yn cael eu mynegi i Ringyll Jones.

6651 /Tachwedd /05 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd Cofnodion o'r cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor ar ddydd Mercher 28ain Medi fel cofnod cywir ynghyd â'r diwygiad canlynol :
Cofnod 6634 – ychwanegu fod y Cyng. Pam Steane Price wedi cyflwyno adroddiad llawn i'r Cyngor. Cytunwyd y dylid rhoi hwn ynghlwm wrth y cofnodion er mwyn eu dosbarthu.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Pawb o blaid.

Darllenwyd Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 12fed Hydref a chymeradwywyd yr argymhellion ynghyd â'r diwygiad canlynol
Cofnod 6636 – Parthed cais cynllunio E/11321 ychwanegu bod gwrthwynebiadau wedi'u derbyn oddi wrth drigolion lleol ac y bydd y rhain yn cael eu hanfon ymlaen ynghyd â sylwadau'r Cyngor
Wnaeth y Cyng Hugh Towns adael y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod.
Cynigiwyd gan y Cyng. Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Pawb o blaid.
Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 12fed Hydref ynghyd â'r diwygiad canlynol :
Cofnod ychwanegu at yr anfoneb i dalu am rent y Swyddfa £155.86
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Pawb o blaid.

6652 / Tachwedd/ 05 Materion yn Codi o gofnodion blaenorol

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Parthed :- Hysbysfwrdd. (Cofnod 6596) Mae yna hysbysfwrdd newydd yn ei le. Mae wedi'i osod mewn lle arall, i wal allanol y bloc toiledau wrth gefn y maes parcio.

6653 / Tachwedd/ 05 Mater Cynllunio

Wnaeth y Cyng Hugh Towns adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Parthed:- Cais am gynllunio amlinellol am oddeutu 45 o aneddiadau ar dir wrth ymyl Fferm Glynceirch ar amgaeadau 8100 & 8791.

1. Penderfynwyd y dylid gofyn i'r Awdurdod am gyfarfod gyda'i Dîm Cynllunio cyn gwneud sylwadau ar y cais.
2. I ofyn i'r datblygwr am gyfarfod safle ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 3ydd
3. Dyma amser priodol i drafod ymhellach gyda'r Adran Gynllunio y ddogfen ar ddatblygiadau'r dyfodol o fewn i'r Dref.
4. Y Clerc i anfon llythyrau at Mr Kevin Phillips a Mr Eifion Bowen o Adran Gynllunio CSC.

Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Pawb o blaid.

6654 / Tachwedd/ 05 Materion Ariannol

Adroddodd y Swyddog Ariannol fod yr ymholiad a godwyd gan yr Archwiliwr Allanol wedi'i ddatrys gyda'r esboniad bod swm o £1970 mewn TAW wedi'i dderbyn yn ystod y Flwyddyn 2004-5 .

6655 / Tachwedd/ 05 Adroddiad y Maer

Cafwyd adroddiad gan y Maer, Cyng.Colin Jenkins, o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau y mae wedi'u mynychu ar ran y cyngor.

6656 / Tachwedd/ 05 Prosiect Llwybr Treftadaeth y Dref

Cyflwynodd y gweithgor ddau benderfyniad i'r Cyngor

I gymeradwyo cynlluniau ar gyfer Llwybr Treftadaeth y Dref fel ag yr argymhellwyd gan y gweithgor

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.

Diolchodd y Cyng Colin Jenkins i'r gweithgor am ei holl waith caled.

I benderfynu ar y tendrau ar gyfer Llwybr Treftadaeth y Dref ac i awdurdodi dyfarnu'r cytundebau, ar yr amod fod y cais am grant yn llwyddiannus.

Wnaeth y Cyng Fran Murphy adael y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.

Fe fyddai'r Cyngor yn gyfrifol am £7000 o'r arian cyfatebol yn hytrach na'r swm o £6000 a grybwyllwyd yn wreiddiol. Mae'r Cyng Roy Davies a Cyng Pam Steane Price wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r cwmnïau sydd wedi cyflwyno tendrau.

Y tendrau a dderbyniwyd :-

Cambria - £ 27660
Trysor - £ 29476
Simon Jones - £27790

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns bod y Cyngor yn derbyn y tendr a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cambria ac eiliwyd hyn gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.

Cyng Ros Bellamy i hysbysu'r Clerc ynglŷn â llythyron sydd i'w hanfon at y cwmnïau nad oedd yn llwyddiannus yn diolch iddynt am eu ceisiadau.

Mae'r amserlen gwariant y grant i'w gwblhau erbyn Mawrth 31ain 2006. Mae'r Cyng Roy Davies wedi ymchwilio i gywirdeb hanesyddol y placiau.

6657 / Tachwedd/ 05 – Prosiect yr Ardd

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Adroddodd y Cyng Pam Steane Price ei bod wedi cwrdd â'r Cyng Fran Murphy ar yr 11eg Tachwedd.
Mae'r fynedfa wedi gwella wrth gwblhau'r gwaith ar y grisiau isaf, gwaith a wnaed gan Mr Hugh Gwynne ar ran y Cyngor. Cyflwynodd y Cyng Steane Price adroddiad ysgrifenedig i'w ddosbarthu.

6658 / Tachwedd/ 05 – Prosiect Neuadd y Sir

Mae'r Cyng Ieuan Gwyn a'r Maer, Cyng Colin Jenkins i gwrdd gyda Mr Gwilym Hughes o Ymddiriedolaeth Cambria gyda'r bwriad o gyflymu'r broses o arwyddo'r les newydd. Darllenwyd llythyr oddi wrth yr Ymddiriedolaeth yn gofyn i'r Cyngor ildio'r cynnydd o 12.5% mewn rent hyd nes fod yr ystafell archif ar gael i'r Ymddiriedolaeth. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn eu bod yn cytuno i'r cais hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Hugh Towns. Pawb o blaid.
Gofynnwyd i'r Clerc barhau gyda'r trefniant ar gyfer llinell ffôn i'r swyddfa newydd a gofynnwyd i'r Swyddog Technegol chwilio am ddyfynbrisiau ar gyfer newid y system larwm. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

6659 / Tachwedd/ 05 Y Goleuadau Nadolig.
Y Maer i siarad â'r Ficer parthed blwch trydan sydd ei angen ar gyfer y Goeden Nadolig. Rhaid gofyn am ganiatâd i'w osod ar dir yr Eglwys

6660/ Tachwedd/ 05 Gohebiaeth.

1. Llythyr oddi wrth D.Richard Evans o CSC mewn perthynas ag eitemau a gedwir ar ran y Cyngor. Y Clerc i chwilio am ddyfynbrisiau addas oddi wrth Peter Llewellyn/ Konica ar gyfer Llungopïwr newydd y byddai CSC yn talu amdano.
2. Llythyr oddi wrth Ms Angie Davies yn cynnig ei gwasanaeth fel clerc cofnodion. Y Clerc i ateb trwy nodi nad oes swydd o'r fath yn wag ar hyn o bryd.
3. Llythyr o ddiolch oddi wrth Mr Geraint Price am yr help a roddwyd gan y Cynghorwyr yn ystod yr Arddangosfa Tân Gwyllt.
4. Llythyr oddi wrth Caroline Ferguson mewn perthynas â llwybr troed Ysgubor Abad yn hysbysu'r Cyngor fod y rheiliau anniogel yn eiddo i'r perchennog. Roedd yn barod i gwrdd â'r perchennog. Y Swyddog Technegol i wneud ymholiadau pellach. Awgrymodd y Maer y dylai'r daith gerdded flynyddol ar Ddydd Calan sy'n mynd ar hyd llwybrau troed fod ar hyd y llwybr hwn er mwyn i'r holl aelodau fod yn ymwybodol o'r sefyllfa. Fe fydd y daith yn dechrau ym maes parcio yr orsaf reilffordd am 11a.m. Mae croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd ymuno yn y daith. Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylai'r eitem hon o newyddion gael ei gosod ar wefan y Dref. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy.
5. Llythyr oddi wrth Mr Eifion Bowen yn hysbysu'r aelodau fod y dyddiad ar gyfer y seminar gynllunio wedi newid o'r 10fed Ionawr i'r 17eg Ionawr 2006.

CYNIGIWYD ATAL RHEOL SEFYDLOG RHIF 6 GAN Y CYNG ROS BELLAMY AC EILIWYD GAN Y CYNG HUGH TOWNS ER MWYN DOD A'R CYFARFOD I DERFYN

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6661 / Tachwedd / 05 Materion Ariannol a godwyd mewn Gwerthusiadau Staff

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyng Hugh Towns ar y Gwerthusiadau a wnaed ar Swyddogion y Cyngor. Cynigiodd y dylid derbyn yr adroddiad er mwyn archwilio ei argymhellion ymhellach. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Mae pwerau dirprwyol pwyllgorau i'w rhoi fel eitem ar yr agenda yng Nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Cynigiwyd gohirio'r mater tan gyfarfod mis Ionawr gan y Cyng Pam Steane Price. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45pm.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk